# Adolygiad o’r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol

Ymgynghoriad arall ar y rheolaethau ffioedd a gynygir ar gyfer band eang safonol a band eang cyflym iawn cyfanwerthol

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 14 Medi 2017

Dyddiad Olaf ar gyfer Derbyn Ymatebion: 26 Hydref 2017

# Gair am y ddogfen hon

Ar 31 Mawrth 2017, roedden ni wedi cyhoeddi ymgynghoriad oedd yn nodi ein cynigion ar gyfer y cyfanswm o ffioedd y gall Openreach godi ar gyfer gwasanaethau mynediad cyfanwerthol a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau ffôn a band eang.

Yng ngoleuni ymatebion rhanddeiliaid a'n dadansoddiad ni, rydym wedi penderfynu ymgynghori ymhellach ar faterion penodol sy'n effeithio ar y ffioedd rhentu cyfanwerthol a gynigir gennym.

Rydym wedi gosod dyddiad cau ar gyfer 26 Hydref 2017 ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad pellach hwn cyn cyrraedd ein penderfyniadau terfynol ar holl agweddau'r ffioedd rhentu cyfanwerthol. Bwriadwn gyhoeddi ein penderfyniad yn gynnar yn 2018.

# Cynnwys

## Adran

1. Crynodeb Gweithredol 1-8

# Crynodeb Gweithredol

1.1 Ar 31 Mawrth 2017, roedden ni wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau'n nodi ein cynigion ar gyfer rheoleiddio'r farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol o 1 Ebrill 2018 ymlaen (Ymgynghoriad Mynediad Lleol Cyfanwerthol Mawrth 2017).[1] Roedd hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer rheolaethau ffioedd ar gyfer Dadfwndelu Dolen Leol (a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau band eang safonol) a Rhith-Fynediad Lleol wedi'i Ddadfwndelu (a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau band eang cyflym iawn), y ddau'n cael eu darparu gan Openreach.[2]

## Cynigion diwygiedig mewn perthynas â'r ffioedd rhentu cyfanwerthol ar gyfer band eang cyflym iawn a safonol

1.2 Yng ngoleuni ymatebion rhanddeiliaid a'n dadansoddiad ni, rydym wedi penderfynu ymgynghori ar y materion canlynol sy'n effeithio ar y ffioedd rhentu cyfanwerthol a gynigir gennym ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2021 ar gyfer band eang safonol (MPF[3]) a band eang cyflym iawn (GEA[4] 40/10):

**Cumulo – ardrethi annomestig (busnes)**: Yn ein cynigion ym mis Mawrth 2017, aethom ati i nodi ein bod yn disgwyl y byddai cynnydd sylweddol yng nghostau ardrethi busnes BT oherwydd bod ei Werth Trethadwy wedi cynyddu bedair gwaith. Ers hynny, mae Gwerth Trethadwy Virgin Media wedi gostwng yn sylweddol, oddeutu 30% yn llai. Rydym yn fwy ffyddiog yn awr na fydd y cynnydd terfynol yng Ngwerth Trethadwy BT gymaint ag yr oeddem wedi'i ragweld ym mis Mawrth. Felly, rydym wedi adolygu ein rhagamcan o gostau cumulo BT ac wedi cymryd y bydd Gwerthoedd Trethadwy cumulo BT yn gostwng 25% o'i gymharu â'n cynigion ym mis Mawrth; a

**Cymarebau cost ychwanegol tymor hir (LRIC) a chost sydd wedi'i dyrannu'n llawn (FAC)**: Yn ein cynigion ym mis Mawrth 2017, aethom ati i ddefnyddio cymarebau LRIC i FAC 2015/16 i ragweld costau a rennir ar draws gwasanaethau yn y marchnadoedd Mynediad Lleol Cyfanwerthol a Llinellau Cyfnewid Analog Sefydlog Cyfanwerthol (WFAEL) (h.y. 'costau cyffredin'). Rydym yn cynnig newid y dull a ddefnyddir i gyfrifo costau cyffredin lle byddwn yn cyfrifo cymhareb LRIC i FAC ym mhob blwyddyn reoli yn hytrach na defnyddio cymhareb 2015/16.

---

[1] Rydym yn cyfeirio at *Wholesale Local Access Market Review – Consultation on the proposed market, market power determinations and remedies – Cyfrol 1* Ofcom 2017 a *Wholesale Local Access Market Review – Consultation on proposed charge control designs and implementation- Cyfrol 2*. Ofcom. 2017. https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/wholesale-local-access-market-review.

[2] Mae Openreach yn darparu gwasanaethau sy'n ymwneud â'r rhwydwaith mynediad.

[3] Mae Cyfleuster Llwybr Metalig yn wasanaeth cyfanwerthol Openreach sy'n galluogi darparwyr telegyfathrebiadau i gymryd rheolaeth dros linellau ffôn ffisegol BT, er mwyn iddynt allu darparu gwasanaetha llais a band eang yn uniongyrchol i gwsmeriaid.

[4] Gwasanaeth cyfanwerthol Openreach ydy Mynediad Ether-rwyd Generig sy'n rhoi mynediad i ddarparwyr telegyfathrebiadau at rwydweithiau Ffibr i'r Cabinet (FTTC) wedyn Ffibr i'r Eiddo (FTTP) BT er mwyn darparu cynnyrch band eang cyflymach.

1.3 Rydym yn ystyried hefyd y cynigion a wnaed yn y dogfennau ymgynghori canlynol i'r graddau y maent yn effeithio ar y rheolaethau ffioedd MPF a GEA 40/10 a gynigir:

- **Ansawdd Gwasanaeth WLR, MPF a GEA, Ymgynghoriad pellach ynghylch atebion arfaethedig ar gyfer ansawdd gwasanaeth:**[5] Heddiw, rydym hefyd wedi cyhoeddi cynigion diwygiedig ar ansawdd gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau band eang a llais sefydlog cyfanwerthol. Mae'r cynigion hyn yn cael effaith ar y costau sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau rhentu MPF a GEA 40/10 ac rydym wedi adlewyrchu'r rhain yn y ddogfen hon;
- **Adolygiad o'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthol: atebion ar gyfer mynediad i bolion a phibellau[6] a'r ymgynghoriad cysylltiedig ar gynigion prisiau ar gyfer atebion mynediad i bolion a phibellau:**[7] Rydym yn ystyried ein cynigion mewn perthynas â'r atebion ar gyfer mynediad i bolion a phibellau; a
- **Adolygiad o'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthol: Adennill costau buddsoddi mewn ehangu rhwydwaith**:[8] Rydym yn ystyried ein hymgynghoriad ar ehangu rhwydwaith, ac ynddo rydym yn cyflwyno ein cynigion i adennill, drwy reolaethau ffioedd gwasanaethau rhentu MPF a GEA 40/10, y costau perthnasol ychwanegol y byddai BT yn eu cael, petai BT yn dod i gytundeb clir a chyhoeddus gyda'r Llywodraeth sy'n ymrwymo BT i fuddsoddi mewn band eang cyffredinol.

1.4 Rydym yn esbonio ein safbwynt hefyd ynghylch costau pensiwn parhaus yn sgil gwybodaeth newydd gan Openreach. Yn ein cynigion ym mis Mawrth 2017, aethom ati i gynnwys costau pensiwn parhaus fel rhan o'r costau tâl cyffredinol. Roedd hyn yn gyson â'n dull yn Natganiad Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Sefydlog (FAMR) Gorffennaf 2014[9] a Datganiad Adolygiad o Bensiwn Rhagfyr 2010.[10] Yn ei ymateb, dywedodd BT wrthym ei fod yn disgwyl i gostau parhaus y cynllun gynyddu'n sylweddol yn 2017/18. Mewn egwyddor, byddem yn ystyried adlewyrchu newidiadau disgwyliedig mewn costau pensiwn yn ein model, ond rydym yn sylwi bod BT wedi cyhoeddi'n ddiweddar eu bod yn adolygu eu cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio. Rydym yn esbonio nad ydym yn meddwl bod gennym ddigon o dystiolaeth ar hyn o bryd i asesu unrhyw newid posibl. Byddwn yn ail-asesu costau pensiwn yn y dyfodol ar gyfer ein Datganiad, os bydd rhagor o wybodaeth ar gael.

---

[5] https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-2/quality-service-wlr-mpf-gea

[6] *Ofcom 2017, Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol - Ymgynghoriad ar atebion ar gyfer mynediad i bolion a phibellau* https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/duct-pole-access-remedies.

[7] *Ofcom 2017, Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol - Ymgynghoriad ar gynigion prisiau ar atebion ar gyfer mynediad i bolion a phibellau, .*

[8] *Ofcom 2017, Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol - Adennill costau buddsoddi mewn ehangu rhwydwaith*

[9] Ofcom, 2014. Fixed Access Market Reviews: Approach to setting LLU and WLR Charge Controls – Datganiad, Atodiad 13. https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0026/78812/annexes.pdf.

[10] Ofcom, Pensions Review – Datganiad, 15 Rhagfyr 2011. https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0019/47701/statement.pdf.

1.5 Yn olaf, rydym yn esbonio ein cynigion ynghylch cyflymder cysoni'r rheolaethau ffioedd a gynigir gennym gyda'n hamcangyfrif o'r gost a pham nad ydym yn meddwl bod angen addasu ffi cychwyn ar gyfer rhentu MPF.

1.6 Mae effaith y gwahanol gostau mewnbwn a'r rhagdybiaethau ynghylch yr achos sylfaen ar gyfer gwasanaethau rhentu MPF a GEA 40/10 o'u cymharu â'n cynigion ym mis Mawrth 2017 yn cael ei nodi yn Nhabl 1.1 isod.

**Tabl 1.1: Cynigion rheolaeth ffioedd achos sylfaen Mawrth 2017 ar gyfer gwasanaethau rhentu MPF SL1 a GEA 40/10 a'n cynigion diwygiedig**

| Achos sylfaen | Pris blynyddol 1 Gorffennaf 2017 (£) | Cynigion ar gyfer rheolaeth ffioedd[11] (£ y flwyddyn) | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
| **Rhent MPF** Cynigion Mawrth 2017[12] (achos sylfaen) | 84.38[13] | 83.50 | 82.28 | 81.98 |
| **Rhent MPF** Cynigion diwygiedig (achos sylfaen) | | 83.70 | 82.56 | 81.81 |
| **GEA 40/10 Cynigion Mawrth 2017[14] (achos sylfaen)** | 88.80 | 66.28 | 57.00 | 52.77 |
| **GEA 40/10 Cynigion diwygiedig (achos sylfaen)** | | 67.86 | 59.03 | 54.66 |
| **Cost ychwanegol ar gyfer ehangu rhwydwaith[15]** | | 0.39 | 1.19 | 1.93 |

[11] Rydym wedi cyflwyno ein hamcangyfrif o'r ffioedd ar gyfer 2018/19, 2019/20 a 2020/21. Bydd yr union ffigurau yn dibynnu ar Fynegai Pris y Defnyddiwr llai'r 'X' a roddwyd.
[12] Fel y nodwyd yn Nhabl 1.1. Cyfrol 2 - Ymgynghoriad Mynediad Lleol Cyfanwerthol Mawrth 2017: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0034/99637/Vol2-Charge-control.pdf
[13] Mae'r ffi hwn wedi gostwng o £85.29 yn Ymgynghoriad Mynediad Lleol Cyfanwerthol Mawrth 2017.
[14] Fel y nodwyd yn Nhabl 1.2. Cyfrol 2 - Ymgynghoriad Mynediad Lleol Cyfanwerthol Mawrth 2017: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0034/99637/Vol2-Charge-control.pdf
[15] Rydym yn cynnig cynyddu ffi rhentu MPF a GEA 40/10 wrth gynyddu cost ehangu rhwydwaith pan gaiff ei brynu gyda WLR yn hytrach na MPF.

## Cynigion diwygiedig ar gyfer ffioedd gwasanaethau ategol cyfanwerthol

1.7 Hefyd, rydym yn ymgynghori mwy am y ffordd rydym yn ymdrin â gwasanaethau ategol penodol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2021, gan gynnwys:

- **GEA Cablelink:** i leihau'r ffioedd cychwyn a gynigiwyd gennym ym mis Mawrth 2017 i adlewyrchu cyhoeddiad diweddar Openreach i leihau ei ffioedd am wasanaethau 1Gbit yr eiliad a 10 Gbit yr eiliad GEA Cablelink[16] a defnyddio cap real cyson yn hytrach na chap nominal cyson;
- **'Cyd-leoli' (co-mingling)** addasu data'r flwyddyn sylfaen i dynnu costau hanesyddol sydd eisoes wedi'u hadfer, sy'n arwain at ffioedd cymharol gyson dros y cyfnod hwn ar gyfer rheolaeth ffioedd (o'i gymharu â dyblu'r ffioedd bron a gynigiwyd gennym ym mis Mawrth 2017);
- **Ceblau-clymu:** cywiro'r rhagdybiaeth am ragamcanion a gwneud addasiadau blwyddyn sylfaen tebyg ar gyfer y ffioedd hyn ag yr ydym ar gyfer gwasanaethau 'cyd-leoli'. Mae hyn yn golygu cynnig mwy o ostyngiad i'r ffioedd ceblau-clymu o'i gymharu â'n cynigion ym mis Mawrth 2017;
- **Dylunio basged gwasanaethau ategol MPF eraill:** Rydym yn cynnig newid y ffordd rydym yn rheoli ffioedd ar gyfer gwasanaethau roeddem yn cynnig eu cynnwys yn y "fasged gwasanaethau ategol MPF eraill", ac nid ydym yn disgwyl i'r effaith fod yn fawr iawn; a
- **Gwasanaethau addasu, diwygio a chanslo GEA:** Rydym yn cynnig cysoni'r ffioedd ar gyfer y gwasanaethau hyn â gwasanaethau addasu lled band GEA, ac rydym yn disgwyl i'r costau fod yn debyg.

1.8 Rydym hefyd yn trafod gofynion ychwanegol ar gyfer adroddiadau ariannol ar wasanaethau cyd-leoli, ceblau-clymu, GEA Cablelink a ffioedd ymweliadau ofer i sicrhau mwy o dryloywder ynghylch y costau a'r refeniw sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hyn yn y dyfodol.

## Ymgynghori a'r camau nesaf

1.9 Rydym yn gofyn am sylwadau gan randdeiliaid ar y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn. Y dyddiad olaf ar gyfer ymateb yw 26 Hydref 2017.

1.10 Mae'r cynigion sydd wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad hwn yn rhan o'n cynigion cyffredinol ar gyfer y farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol. Hyd yma, nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas ag agweddau eraill ar y cynigion a oedd wedi'u nodi yn ein Hymgynghoriad ar Fynediad Lleol Cyfanwerthol ym mis Mawrth 2017. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn gwneud mwy o waith dadansoddi a chasglu gwybodaeth cyn penderfynu ar y camau nesaf sy'n briodol i'w cymryd. Felly rydyn

[16] Gweler: https://www.openreach.co.uk/orpg/home/updates/briefings/super-fastfibreaccessbriefings/super-fastfibreaccessbriefingsarticles/nga02917.do

ni’n gofyn am sylwadau gan randdeiliaid ynghylch y cynigion sydd yn y ddogfen ymgynghori hon a’u heffaith ar ein cynigion Mynediad Lleol Cyfanwerthol ym mis Mawrth 2017. Nid ydym, yn y ddogfen hon, yn gofyn am ragor o sylwadau mewn perthynas â'r cynigion cyffredinol a oedd wedi’u nodi yn ein Hymgynghoriad ar Fynediad Lleol Cyfanwerthol ym mis Mawrth 2017.

1.11 Rydym yn disgwyl y byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad terfynol mewn datganiad ddechrau 2018, gyda mesurau newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2018.